Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad o newidiadau o bwys

## Cynllun Taliadau 2023/24

Lluniwyd y datganiad hwn yn unol â gofynion gwybodaeth y Rheolau ar Gynlluniau Taliadau a gyhoeddwyd ddiwethaf yn Hydref 2021.

## Adran 1 - Cynnydd o bwys mewn biliau

**a) Cadarnhau a yw'r ymgymerydd yn disgwyl gweld cynnydd o dros 5% mewn unrhyw filiau ers y flwyddyn flaenorol (am fath penodol o gwsmer gan ragdybio lefel gyson o ddefnydd) ac, os disgwylir cynnydd o'r fath:**

**(i) maint y cynnydd a ddisgwylir;**

**(ii) pa fathau o gwsmeriaid y mae hyn yn debygol o effeithio arnynt; a'r**

**(iii) strategaethau y mae'r cwmni wedi eu mabwysiadu i ddelio â hyn, neu pam nad yw'r cwmni'n teimlo bod angen unrhyw strategaeth i ddelio â'r peth.**

Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r newid yn y biliau ar gyfer cwsmeriaid domestig a busnes sy'n deillio o Gynllun Taliadau 2023/24.

Rheoleiddiwr y diwydiant, sef Ofwat, sy'n pennu'r refeniw a ganiateir ar gyfer cwmnïau dŵr a charthffosiaeth adeg yr adolygiadau o brisiau a gyflawnir pob pum mlynedd. Mae'r rhain yn cael eu haddasu'n flynyddol yn ôl y lefel chwyddiant (a fesurir ar sail y mynegai prisiau defnyddwyr, gan gynnwys costau tai, a elwir yn CPI(H)); yn ôl perfformiad y Cwmni wrth gyflawni'r mesurau gwasanaeth a gymeradwywyd yn yr adolygiad o brisiau, ac er mwyn gwneud iawn am unrhyw refeniw sydd wedi cael ei dan- neu ei or-adfer mewn blynyddoedd blaenorol.

Bu'r lefel chwyddiant yn arbennig o uchel yn 2022 oherwydd amrywiaeth o ffactorau, ac mae hynny wedi cael effaith sylweddol ar gostau byw. Ffigur CPI(H) Tachwedd, sef y ffigur a gymhwyswyd i'n taliadau ar gyfer 2023/24, oedd 9.3%. Yn anochel felly, mae hynny'n golygu cynnydd uwch mewn biliau nag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol, gyda biliau mesuredig yn cynyddu 8.0% a biliau anfesuredig yn cynyddu 9.4%.

Mae Bwrdd Dŵr Cymru Welsh Water yn cydnabod na fydd cwsmeriaid yn croesawu cynnydd o'r maint yma yn ei dariffau, yn arbennig ar gyfnod o ansicrwydd economaidd. Ar hyn o bryd, mae'r cwmni'n cynorthwyo tua 108,000 o gwsmeriaid domestig trwy ei dariffau cymdeithasol, ac mae yna gapasiti i gynorthwyo 40,000 pellach. Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi cydsynio i greu cynllun newydd i gynnig rhyddhad dros dro ar eu biliau i'r cwsmeriaid domestig hynny nad ydynt yn gymwys ar gyfer y tariffau cymdeithasol, ond a allai fod yn wynebu argyfwng tymor byr gyda'u cyllidebau domestig.

Ar ôl adolygu effaith tariffau 2023/24, mae hi'n amlwg y bydd yr holl gwsmeriaid yn gweld cynnydd o dros 5% yn eu biliau, o dybio na fydd unrhyw newid yn eu heiddo nac yn lefel eu defnydd. Bydd y Cwmni'n sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'r effaith debygol ar eu biliau, a bydd yn gweithio gyda nhw i ddarparu cymorth lle bo modd.

Bydd cwsmeriaid HelpU a WaterSure Cymru yn gweld cap ar y cynnydd yn ei biliau yn unol â'r newidiadau mewn taliadau safonol er mwyn sicrhau bod y tariffau'n dal i fod ar gael i'r nifer ehangaf bosibl o gwsmeriaid.

Mae Tablau 2 a 3 yn dangos effaith y taliadau a gyhoeddwyd ar sampl cynrychiadol o gwsmeriaid yn unol â Gofynion Gwybodaeth y rheolau ar Daliadau.

**Tabl 2 Biliau enghreifftiol – Cwsmeriaid domestig**

Mae'r tabl isod yn dilyn Gofynion Gwybodaeth y Rheolau ar Gynlluniau Taliadau trwy ddangos maint biliau amrywiaeth o gwsmeriaid domestig nodweddiadol yn sgil Cynllun Taliadau 2023/24 a'r newid ynddynt ers biliau'r flwyddyn flaenorol. Mae'r dadansoddiad hwn yn rhagdybio defnydd cyson ar gyfer cwsmeriaid mesuredig: os yw'r cwsmeriaid hyn yn gallu lleihau eu defnydd yn 2023/24 o gymharu â 2022/23, yna bydd yna lai o effaith ar y bil.

| | Defnydd | Cyfanswm y Bil £ | Cyfanswm y Bil £ | Newid £ | Newid % |
|---|---|---|---|---|---|
| | £RV or m³ | 2023/24 | 2022/23 | | |
| **Gwasanaeth Llawn** | | | | | |
| **Gwasanaeth Deuol Anfesuredig** | | | | | |
| GA Isel | 50 | 493 | 469 | 24 | 5.1% |
| GA Canolig | 122 | 694 | 634 | 60 | 9.4% |
| GA Uchel | 200 | 911 | 812 | 99 | 12.1% |
| **Gwasanaeth Deuol Mesuredig** | | | | | |
| Defnydd isel | 50 | 317 | 293 | 24 | 8.0% |
| Defnydd canolig | 79 | 413 | 382 | 30 | 8.0% |
| Defnydd uchel | 135 | 598 | 554 | 44 | 7.9% |
| Tâl Gwasanaeth Unffurf am Wasanaeth Deuol | | | | | |
| Gwasanaeth Llawn | | 716 | 652 | 64 | 9.8% |
| **Dŵr yn Unig** | | | | | |
| GA canolig anfesuredig | 122 | 271 | 251 | 20 | 7.9% |
| Defnydd canolig mesuredig | 79 | 155 | 147 | 8 | 5.6% |
| **Dŵr Gwastraff yn Unig** | | | | | |
| GA canolig anfesuredig | 122 | 423 | 383 | 40 | 10.4% |
| Defnydd canolig mesuredig | 75 | 257 | 235 | 22 | 9.5% |
| **AMC** | | | | | |
| 1 person canolig | | 366 | 339 | 27 | 8.0% |
| 2 berson canolig | | 456 | 422 | 34 | 8.0% |
| **Dŵr Budr yn Unig** | | | | | |
| **Gwasanaeth Deuol Anfesuredig - dŵr budr yn unig** | | | | | |
| GA Isel | 50 | 441 | 417 | 24 | 5.7% |
| GA Canolig | 122 | 642 | 582 | 60 | 10.2% |
| GA Uchel | 200 | 859 | 761 | 99 | 13.0% |
| **Gwasanaeth Deuol Mesuredig – dŵr budr yn unig** | | | | | |
| Defnydd isel | 50 | 282 | 262 | 21 | 7.8% |
| Defnydd canolig | 79 | 378 | 351 | 27 | 7.8% |
| Defnydd uchel | 135 | 563 | 523 | 41 | 7.8% |
| **Tâl Gwasanaeth Unffurf am Wasanaeth Deuol - dŵr budr yn unig** | | | | | |
| Dŵr Budr yn Unig | | 664 | 600 | 64 | 10.6% |
| **Dŵr Gwastraff yn unig – dŵr budr yn unig** | | | | | |
| GA canolig anfesuredig | 122 | 371 | 331 | 40 | 12.1% |
| Defnydd canolig mesuredig | 75 | 223 | 204 | 19 | 9.4% |
| **Gwasanaeth Deuol AMC - dŵr budr yn unig** | | | | | |
| 1 person canolig – dŵr budr yn unig | - | 332 | 308 | 24 | 7.8% |
| 2 berson canolig – dŵr budr yn unig | - | 421 | 391 | 31 | 7.8% |

### Tabl 3 Biliau enghreifftiol – Cwsmeriaid annomestig

Mae'r tabl isod yn dangos y bil ar gyfer amrywiaeth o gwsmeriaid busnes nodweddiadol yn sgil Cynllun Taliadau 2023/24 a'r newid ynddynt ers biliau'r flwyddyn flaenorol (gan ragdybio defnydd cyson ar gyfer cwsmeriaid mesuredig).

| | Defnydd | Cyfanswm y Bil £ | Cyfanswm y Bil £ | Newid £ | Newid % |
|---|---|---|---|---|---|
| | £RV or m³ | 2023/24 | 2022/23 | | |
| **Gwasanaeth Llawn** | | | | | |
| **Gwasanaeth Deuol Anfesuredig** | | | | | |
| GA Canolig | 198 | 878 | 796 | 82 | 10.3% |
| **Gwasanaeth Deuol Safonol Mesuredig** | | | | | |
| Defnydd canolig | 460 | 2,033 | 1,853 | 180 | 9.7% |
| LITs | | | | | |
| Band 1 | 75,000 | 105,807 | 96,528 | 9,279 | 9.6% |
| Band 2 | 175,000 | 212,967 | 194,224 | 18,743 | 9.7% |
| Band 3 | 375,000 | 416,311 | 379,789 | 36,522 | 9.6% |
| Band 4 | 750,000 | 768,711 | 701,552 | 67,159 | 9.6% |
| Band 5 | 1,250,000 | 1,205,203 | 1,099,343 | 105,860 | 9.6% |
| **Dŵr Anyfadwy** | | | | | |
| Crai Band A | 1,500 | 2,079 | 1,914 | 165 | 8.6% |
| Rhannol Band A | 1,000 | 1,493 | 1,390 | 103 | 7.4% |
| Crai Band B | 415,724 | 218,131 | 199,027 | 19,104 | 9.6% |
| Rhannol Band B | 2,105,801 | 1,157,347 | 1,055,615 | 101,733 | 9.6% |
| **AMC Gwasanaeth Deuol** | | | | | |
| Masnachol Band 2 | 822 | 3,041 | 2,764 | 277 | 10.0% |
| Masnachol Band 2 - dŵr budr yn unig | 822 | 2,987 | 2,648 | 339 | 12.8% |
| **Dŵr Gwastraff Mesuredig > 100Ml** | | | | | |
| Dŵr Gwastraff > 100Ml gwasanaeth llawn | 360,000 | 723,718 | 661,714 | 62,004 | 9.4% |
| Dŵr Gwastraff > 100Ml dŵr budr yn unig | 360,000 | 705,899 | 608,734 | 97,165 | 16.0% |
| **Elifiant masnachol** | | | | | |
| R < 100Ml | 8,000 | 3,021 | 2,713 | 308 | 11.4% |
| V < 100Ml | 8,000 | 3,767 | 3,368 | 399 | 11.9% |
| VB < 100Ml | 8,000 | 1,538 | 1,374 | 163 | 11.9% |
| B < 100Ml | 5,000 | 3,366 | 2,989 | 377 | 12.6% |
| S < 100Ml | 700 | 492 | 432 | 60 | 13.8% |
| Cyfanswm y Bil | | 12,183 | 10,876 | 1,307 | 12.0% |
| R > 100Ml | 350,000 | 88,369 | 78,995 | 9,374 | 11.9% |
| V > 100Ml | 350,000 | 159,285 | 142,380 | 16,905 | 11.9% |
| VB > 100Ml | 350,000 | 62,440 | 55,825 | 6,615 | 11.8% |
| B > 100Ml | 213,000 | 126,288 | 113,359 | 12,929 | 11.4% |
| S > 100Ml | 28,000 | 19,662 | 17,279 | 2,383 | 13.8% |
| Cyfanswm y Bil | | 456,043 | 407,838 | 48,206 | 11.8% |

## Adran 2 - Newidiadau yn y polisi taliadau

(b) Manylion unrhyw newidiadau o bwys i bolisi taliadau'r cwmni ers y flwyddyn flaenorol.

**Taliadau 2023/24**

Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r polisi taliadau ers Cynllun Taliadau 2022/23.

## Atodiad 1: prif daliadau 23/24 a'r newidiadau ers 22/23

| Tariff | **23/24** | **22/23** | **Newid %** |
|---|---|---|---|
| **Dŵr** | | | |
| Tâl Sefydlog Anfesuredig | 138.23 | 141.12 | -2.1% |
| Tâl Amrywiol Anfesuredig (GA) | 1.0877 | 0.9022 | 20.6% |
| Tâl Sefydlog Anfesuredig | 40.51 | 38.48 | 5.3% |
| Tâl Cyfeintiol Mesuredig | 1.4526 | 1.3741 | 5.7% |
| HelpU - hen | 109.09 | 101.14 | 7.9% |
| HelpU | 124.01 | 114.98 | 7.9% |
| WaterSure Cymru | 166.32 | 157.50 | 5.6% |
| **Dŵr gwastraff** | | | |
| Tâl Sefydlog Anfesuredig – gwasanaeth llawn | 215.36 | 213.67 | 0.8% |
| Tâl Amrywiol Anfesuredig (GA) | 1.6992 | 1.3859 | 22.6% |
| Tâl Sefydlog Mesuredig | 110.82 | 101.23 | 9.5% |
| Tâl Cyfeintiol Mesuredig | 1.9534 | 1.7848 | 9.5% |
| HelpU - hen | 148.44 | 134.42 | 10.4% |
| HelpU | 167.29 | 151.49 | 10.4% |
| WaterSure Cymru | 236.99 | 216.51 | 9.5% |

## Atodiad 2 – Rhestr o Gysylltiadau â'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr

| **Dyddiad** | **Pwrpas** | **Deilliant** |
|---|---|---|
| 30/8/22 | Trafodaeth ar y cynigion ar gyfer newid | Cyflwynwyd crynodeb o'n cynigion ar gyfer taliadau 23/24, ynghyd â'r effeithiau ar gwsmeriaid domestig ac annomestig |
| 12/10/22 | Darparu templed CCW | Darparwyd fersiwn o dempled CCW wedi ei llenwi, gan bennu'r effeithiau disgwyliedig ar filiau ar gyfer 23/24 |
| 18/11/22 | Ymateb ar fforddiadwyedd | Anfonwyd ymateb i lythyr CCW ac Ofwat am gymorth fforddiadwyedd ar gyfer 23/24 |
| 24/11/22 | Trafodaeth ar y cynigion terfynol am daliadau | Rhoesom ddiweddariad ar y newidiadau allweddol mewn taliadau ers ein cyfarfod diwethaf |
| Ion '23 | Darparu templed CCW | Byddwn ni'n darparu fersiwn derfynol o dempled CCW, gan bennu'r newidiadau terfynol yn y biliau |